Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 3ydd Rhagfyr 2024

Croeso a Gweddi.
Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd a gair o weddi gan Rhian Evans-Hill

Presennol
Y Cadeirydd Jane Pierce ynghyd a'r cynghorwyr Elwyn Jones, Phyllis Ellis, Ellen George, Rhian Evans-Hill, Gareth Hughes, Gareth W Griffiths, Lowri James a Sasha Williams.

Ymddiheuriadau.
Ynyr Parri, Idris Thomas, Emma Chappell, Dawn Thomas a Berwyn Parry Jones.

Datgan Buddiant
Dim

Cofnodion Cyfarfod y 12fed Tachwedd 2024
Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

Materion o'r Cofnodion.
Llythyr Diolch - Derbyniwyd llythyr gan Bwyllgor Neuadd Penisa'r-waun.
Partneriaeth Dyffryn Peris - Yn dilyn cysylltu ynglŷn â'n pryderon, penderfynwyd fod cynrychiolydd o'r grŵp am ddod i drafod ymhellach yn ein cyfarfod mis Ionawr.
Bont Brynrefail - Derbyniwyd ymateb gan yr adran traffic yng nghyngor Gwynedd, os bydd ceir neu faniau ar y Bont ac yn nadu cerbydau neu fysus fynd heibio, mae angen cysylltu â'r heddlu yn syth.

Gohebiaeth a Materion Eraill
Gôr yrru ym Mhenisa'r-waun - Dywedodd y cynghorydd Sir bod ceblau yn mynd i gael ei rhoi lawr i weld faint o'r yrru sydd yn mynd ymlaen gan fod cymaint o gŵyn yn y ddau ben o'r pentref.
Cysgodfa Bws Gwaelod Bethel - Nodwyd fod y paneli ar y gysgodfa bws wedi ei chwalu yn y storm. Mae'n debyg fod y paneli yn denau iawn. Am edrych os oes posib gosod rhywbeth cryfach yn y gysgodfa.
Gwrychoedd ochr Lon Castell - Mae'n ymddangos nad ydi'r gwrychoedd wedi cael eu torri, ac yn wir angen sylw. Hefyd mae mieri yn isel ar ochor y lôn sydd yn nadu cerddwyr i symud i'r ochor pan fu ceir yn dod ar hyd y ffordd. Hyn yn wir am Lôn Waun i Gapel Glasgoed hefyd.

Cynllunio.
Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:
C24/0977/18/LL- Amgueddfa Lechi Cymru, Gilfach Ddu, Llanberis
Gwaith adfer i'r safle yn cynnwys addasiadau mewnol ac allanol.

C24/1006/18/LL - Cylch Meithrin Deiniolen
Gosod uned fodwlar 4 Bae Newydd yng nghefn y feithrinfa bresennol, i wasanaethu fel gofod ychwanegol a'r holl waith cysylltiedig.

C24/0993/18/LL - Ynys Lwyd, Llanddeiniolen

Estyniad i adeilad amaethyddol ac adeiladu storfa slyri o dan y ddaear.

Materion Ariannol

Rhannwyd mantolen a sefyllfa ariannol hyd yn hyn. Nid oedd gan neb gwestiwn a derbyniwyd y fantolen yn gywir. Bu i'r pwyllgor cyllid drafod i roi braslun o gyllideb 5 mlynedd at ei gilydd i'r clerc baratoi ar gyfer y cyfarfod llawn i bennu praesept mis Ionawr.
Awdit - Bu i'r clerc dderbyn y ffurflen flynyddol yn ôl, gyda llythyr yn nodi fod yr archwiliad wedi dod i ben, Mae hysbyseb a'r ffurflen bellach ar wefan y Cyngor ac ar hysbyseb fwrdd y pentrefi.

Cadarnhau Taliadau

Derbyniwyd y taliadau ar y rhestr ac arwyddwyd gan y Cadeirydd